sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
# Cynllun Datblygu Lleol

# Datganiad Sefyllfa
# Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr



Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Datganiad Sefyllfa

## Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

## fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 - 2033

Nodyn: Sylwch fod cynnwys y Datganiad Sefyllfa hwn a'r amserlen i ymgymryd âr ALlSTh wedi'i baratoi cyn i Lywodraeth Cymru roi gwybod i Lywodraeth Cymru am adolygu eu Methodoleg Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliwyd y Datganiad Sefyllfa hwn i gefnogi'r dystiolaeth dros ddarparu ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Gaerfyrddin, ac i'w ystyried wrth lunio polisïau cynllunio strategol a phenodol a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Paratowyd y datganiad hwn fel dogfen gyflwyno i'w harchwilio, a'i thrafod yn dilyn sesiwn gwrandawiadau, a gynhelir yn ystod Haf / Hydref 2024.

1.2 Mae'r datganiad hwn hefyd yn nodi sefyllfa bresennol yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, ac yn deall y gofynion o ran diweddaru'r Asesiad presennol yn y dyfodol, a'r amserlen o ran gwneud hynny.

# 2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2019

2.1 Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn Haf / Hydref 2019 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gadarnhau. Tynnwyd sylw at y canlynol yn yr asesiad o anghenion:

## Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr- Darpariaeth Gyfredol (2019)

2.2 30 o leiniau preifat i sipsiwn a theithwyr; mae gan 22 ohonynt statws cynllunio parhaol ac mae gan 2 ganiatâd cynllunio dros dro. Roedd 6 yn destun cais cynllunio presennol.

Roedd 15 o leiniau cyhoeddus i sipsiwn a theithwyr.
Roedd 9 llain i siewmyn teithiol

## Anghenion o ran lleiniau ychwanegol

Sefyllfa Sipsiwn a Theithwyr yn 2019:
Yr angen heb ei ddiwallu: 19 llain
Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 23 llain
Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 31 llain

Siewmyn Teithiol - Anghenion ychwanegol am leiniau yn 2019
Yr angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd: 4 llain
Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 4 llain
Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 6 llain

## Angen Symudol

2.3 Ni wnaeth Asesiad 2019 dynnu sylw at unrhyw dystiolaeth o ran patrwm clir o wersylloedd ac nid yw'r cyfrifiadau o garafanau dilynol bob dwy flynedd wedi nodi unrhyw angen am safle symudol yn Sir Gaerfyrddin.

## Cytuno ar y sefyllfa gyda Llywodraeth Cymru

2.4 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ymateb i Asesiad 2019, yn dilyn penodi staff newydd i'w tîm yn ddiweddar.

## 3. Caniatâd cynllunio ers Asesiad 2019

3.1 Ers cyhoeddi Asesiad 2019 mae newid sylweddol wedi digwydd o ran anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer nifer o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y sir, a nodir y rhain isod:

### Tir ym Maesydderwen, Llangennech

PL/00775 - Creu pedair llain i deuluoedd sy'n deithwyr gydag un uned breswyl sefydlog, carafán deithiol, ystafell ddydd/aml-bwrpas a man parcio ar gyfer pob llain, gwelliannau i'r mynediad presennol, ffordd fynediad fewnol a gwella tirlunio (Cam 2). Rhoddwyd caniatâd ar 24/06/2022.

PL/03333 - Creu 10 llain ychwanegol i deithwyr i'r gorllewin o PL/00775 (Lleiniau 5-14) gyda'r cynllun amgen, gwelliannau ecolegol a thirwedd ac estyniad i ffordd fynediad fewnol a gymeradwywyd (Cam 3). Rhoddwyd caniatâd ar 05/01/2024.

**Mae'r ddau gais uchod yn rhan o'r un safle. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Hillside View, Llan-non, Llanelli

S/34755 - Dwy garafán breswyl sefydlog ynghyd ag adeiladu ystafell ddydd/aml-bwrpas, dwy garafán deithiol a stablau (rhannol ôl-weithredol). Rhoddwyd caniatâd ar 20/03/20.

S/38535 - Helaethu safle teithwyr S/34755 er mwyn caniatáu trydedd lain ar gyfer aelod o'r teulu, yn ogystal â newidiadau i'r cynllun tirweddu a chaniatáu i'r safle gael caniatâd parhaol - Rhoddwyd caniatâd llawn ar 28/02/2020.

S/40672 - Dileu Amod 4 (Deiliaid a'u dibynyddion), Amod 5 (Adfer Tir), ac Amod 6 (Caniatâd 4 blynedd Dros Dro) o S/38535. Dileu / Amrywio'r Amod a Gymeradwywyd.

**Mae'r tri chais uchod yn rhan o'r un safle, gyda'r cais olaf yn gwaredu unrhyw ganiatâd personol o'r safle.**

### Parc Carafanau Caer Elms, Pont y Sandy, Llanelli

S/22761 - Newid defnydd y tir o Iard Ddiwydiannol gynt i Safle Carafanau at ddefnydd preswyl ac ailddefnyddio adeilad yn floc cawodydd/toiledau.

**Mae hwn yn gais hirsefydlog a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2023. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Tynewydd, Llanybydder

W/39249 - Un garafán breswyl sefydlog i sipsiwn fyw / gweithio ynddi a stablau, ynghyd â chodi ystafell ddydd/ystafell aml-bwrpas, lle i barcio un garafán deithiol, diwygio'r mynediad, man parcio a man troi.

**Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 15/04/2020. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Rhodfa Frondeg, Llanelli

**PL/01088 -** Creu un llain i deuluoedd sy'n deithwyr gydag un uned sefydlog breswyl, carafán deithiol, ystafell ddydd/ystafell aml-bwrpas a man parcio a gwelliannau i'r dramwyfa bresennol a gwaith tirweddu.

**Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 11/11/2021. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Fferm Penybryn, Llangynnwr, Nant-y-caws, Caerfyrddin

PL/00228 - Creu llain i deuluoedd sy'n deithwyr (i dair cenhedlaeth) gan gynnwys tair carafán sefydlog a rhai teithiol, ystafelloedd dydd/aml-bwrpas ategol, bloc stablau newydd, cadw'r ardal craidd caled a'i hymestyn, cadw'r cynwysyddion storio a gosod gwaith trin carthion bach.

**Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 20/11/2023. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Stablau Melden, Pen-bre, Llanelli

PL/02390 - Creu un llain ychwanegol i deuluoedd sy'n deithwyr gydag un uned sefydlog breswyl, carafán deithiol, ystafell amlbwrpas/dydd (addas i bobl anabl) gan ddefnyddio mynediad amaethyddol cymeradwy.

**Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 14/10/2021. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

### Fferm Glyn Crwbach, Myrtle Hill, Cynheidre

PL/00264 - Creu llain i deithwyr gan adnewyddu'r sied wartheg bresennol er mwyn ffurfio ystafell ddydd/aml-bwrpas, carafán sefydlog ac un deithiol, gosod gwaith trin carthion bach, newidiadau i'r mynediad a chodi strwythurau i greu ffin.

**Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 02/03/2021. Bydd y safle hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024.**

# 4. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2024

4.1 O ystyried bod 5 mlynedd ers cyflwyno'r Asesiad diwethaf o'r math hwn, mae bellach yn ofynnol cynnal asesiad wedi'i ddiweddaru. Caiff yr asesiad hwn ei gynnal yn haf 2024. Fodd bynnag, bydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r CDLl diwygiedig gael ei gyflwyno i'w archwilio, ac felly ni ellir ei gyflwyno fel rhan o'r gyfres o ddogfennau i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn Ebrill 2024.

## Amserlenni

4.2 Er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltiad ag sy'n bosibl ar gyfer yr asesiad Sipsiwn a Theithwyr, mae amseru unrhyw arolwg yn debygol o fod yn fwy priodol ar ddechrau'r haf ac o ystyried newidiadau tymhorol a phatrymau teithio sipsiwn a theithwyr. Bydd y dull hwn yn ceisio ymgysylltu â chynifer ag sy'n bosib o Sipsiwn a Theithwyr yn y sir i lywio'r asesiad.

4.3 Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i'r dull canlynol wrth gynnal yr asesiad wedi'i ddiweddaru.

| | |
|---|---|
| Gwaith Cwmpasu Cychwynnol – Paratoi a Gweithio mewn Partneriaeth | Mai 2024 |
| Gwaith Arolwg Maes | Mehefin 2024 |
| Casglu'r dystiolaeth a chynnal yr asesiad anghenion llety | Gorffennaf 2024 |
| Gwirio ffeithiau | Awst 2024 |
| Cyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety i Lywodraeth Cymru | Hydref 2024 |

4.4 Bwriad yr Awdurdod Lleol yw darparu'r wybodaeth hon fel rhan o ddogfennaeth y Gwrandawiad.

# 5. Safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl Diwygiedig a'r Camau Nesaf

5.1 Nodir bod yr Awdurdod Lleol wedi nodi dau safle Sipsiwn a Theithwyr newydd yn y CDLl Diwygiedig, ac maent wedi bod yn destun ymgynghoriad fel rhan o gyhoeddi'r CDLl Diwygiedig Adneuo ar ddechrau 2023.

5.2 O ystyried nifer y caniatadau cynllunio a amlygwyd ym mhennod 3, bydd yn cael effaith dybiedig ar yr angen am lety o fewn Asesiad Anghenion 2024. Gall hyn gael effaith ganlyniadol ar nifer y lleiniau sydd eu hangen ar gyfer cyfnod y cynllun hyd at 2033. Bydd angen dadansoddi'r wybodaeth hon a'i hystyried drwy'r sesiynau gwrandawiadau.